

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Rhagfyr, 2018 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn

PRESENNOL

Cynghorwyr : Haf Hughes, (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Daniel Evans, Hywel Ifans, Lynford Thomas

1. YMDDIHEURIADAU

Cyng Alan Henson, Owen Llywelyn, Lyn Williams

3. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 13eg Tachwedd, 2018, yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Glyn Davies.

4. MATERION YN CODI

10i a **Dihewyd**. Cadarnhawyd bod y draen ger yr Eglwys a'r Ysgoldy Bach wedi ei glirio.

10i c **Ystrad**. Cadarnhawyd bod y gwter yn Ystrad wedi cael ei glirio.

10ii **Clawdd Bro Silin**. Cadarnhawyd bod y clawdd wedi ei dorri

10v **Cofgolofn Cribyn**. Cynigiodd y Cyng. Glyn Davies y dylid cydnabod Mr. Andrew Owen am y gwaith o lanhau'r cofgolofn. Cynigiodd swm o £25.00. Eiliwyd gan Y Cyng. Johnny Davies. **Penderfynwyd** anfon siec a llythyr o ddiolch i Mr. Owen.

12i **Pafin Dihewyd**. Er bod y Clerc wedi gofyn am wybodaeth yn dilyn ymweliad Swyddog o Adran y Priffyrdd â'r safle, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. **Penderfynwyd** cysylltu eto.

5. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros y mis diwethaf. Fel arfer, bu'n brysur iawn yn mynychu cyfarfodydd amrywiol a nifer o Ffeiriau Nadolig yn ysgolion y plwy'.

6. CYLLID

i. **Y Wefan**. Mae'r gwaith o ddiogelu'r wefan (a drafodwyd ac a gytunwyd yng nghyfarfod Medi, 7cii) wedi ei gwblhau a'r dystysgrif flynyddol wedi ei adnewyddu. Y cyfanswm am y gwaith yw £147.60.

ii. **Costau goleuadau**. Derbyniwyd anfoneb am £2045.38 (yn cynnwys TAW). Gan fod y Cyngor Sir wedi gosod bylbiau LED ar draws y sir ac wedi arbed 70% ar

gostau ynni yn sgil y newid hwn, **penderfynwyd** cysylltu â'r Awdurdod i ofyn a fydd yr arbedion yn cael eu hadlewyrchu yn y taliad ar gyfer 2019.

iii. **Preasept.** Derbyniwyd manylion Praesept am 2019/20.. Penderfynwyd hawlio'r un swm a 2018/2019 sef £9950. Ar sail sylfaen treth y Cyngor o £659.13 (ychydig yn îs na 2018/2019) mae hyn yn gosod y cyfartaledd i Band D ar £15.10 a hynny 9c yn fwy na llyned

iv. Tâl y Clerc o £575 yn ddyledus o Fedi – Rhagfyr, 2018.

7.. GOHEBIAETH

i. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y cyfraniad o £1,500 gan Mrs. Mary Davies, ar ran Eglwyd Ystrad.

ii. Hyddorddiant Ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad (4/2/2019) Bydd y Clerc a'r Cyng. Lynford Thomas yn mynychu'r hyfforddiant hwn.

8. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

i. Llyfrau Llafar Cymru. Yn dilyn trafodaeth, **penderfynwyd** cysylltu â'r elusen i wneud ymholiadau am rifau defnyddwyr lleol.

ii. Eisteddfod Pantyfedwen Llanbed. Cynigwyd cyfraniad o £20 gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Harry Williams. **Cytunwyd** yn unfrydol.

9. CYNLLUNIO

Dim materion cynllunio i'w trafod

10. UNRHYW FATER ARALL

i. Nododd y Cyng. Johnny Davies ddamwain arall rhwng Nantygelli a Chefn Ystrad ar y B4342 Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd i nodi'r pryder ac i ofyn am ailosod 'reflector' ar y gornel gan fod yr un oedd yna wedi mynd.

ii. Yn dilyn ymholiad a gyflwynwyd gan y Cyng. Hywel Ifans ar ran teulu yn Dihewyd am fater yswiriant eu cartref, **penderfynwyd** nad mater i'r Cyngor Cymuned oedd hwn a chytunodd y byddai'n trosglwyddo'r neges i'r teulu yn dilyn y cyfarfod.

12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 12fed Chwefror, 2019 yn Neuadd Dihewyd.